## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Jan Curtice | Adran Etholiadol: | Penyrheol |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Bûm yn Ysgrifennydd/Trysorydd y Blaid Lafur yn y ward leol ac yn Is-gadeirydd Iau Plaid Lafur Sirol Gŵyr.

Bûm yn bresennol ym mhob cyfarfod y ward a'r sir. Cynhaliwyd cymorthfeydd ym Mhenyrheol a Phengelli unwaith y mis. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r heddlu bob chwarter a chynhaliwyd cyfarfodydd â'r swyddog tai lleol bob chwarter.

Bûm yn cerdded o gwmpas y ward i siarad ag etholwyr. Roeddwn yn aelod o Gyngor Tref Gorseinon ac yn gwasanaethu fel Maer y dref.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 3/4 | 75% |
| Pwyllgor Penodiadau | 18/19 | 95% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 11/12 | 92% |
| Y Cyngor | 14/15 | 93% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8/8 | 100% |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 2/45 | 50% |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 9/9 | 100% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 12/16 | 75% |
| CYFFREDINOL | 77/78 | 89% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Aelod o Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe; Is-gadeirydd y Grŵp Llafur; Aelod o Grŵp Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr (AoHNE);
Aelod o'r Panel Mabwysiadu; Is-gadeirydd Pwyllgor Adnoddau Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ; Aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
Aelod o Bwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin;
Aelod o'r Panel Craffu

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Llwyddais i sicrhau cysgodfa bysus a blwch llythyrau i Bengelli. Mae'r gwaith o baentio llinellau melyn mewn ardaloedd amrywiol yn y ward yn parhau. Bûm yn ymwneud â'r ymgais i gael statws "Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur" (SBCN) ym Mharc Melyn Mynach a chaiff cyfarpar chwaraeon a chwarae ei osod ym Mharc y Werin maes o law.

Cyfarfûm â swyddogion er mwyn datrys problemau parcio ger Ysbyty Gorseinon. Cyfarfûm â swyddogion i gerdded o gwmpas Pengelli a nodi problemau amrywiol yn y ward Ymgyrchais dros groesfan ym Mhengelli ar y cyd ag aelodau'r Cabinet, swyddogion, penaethiaid ac aelodau'r ward.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Cymerais ran yn y sesiynau hyfforddiant canlynol:

27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
21/02/2014 - Sgiliau Gwrando'n ofalus
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/06/13 - Recriwtio a Dethol
Dyddiadau amrywiol - Academi Arweinyddiaeth
Plant sy'n derbyn gofal
Hyfforddiant Pobl Hŷn yng Nghaerdydd

Rwyf hefyd yn ymgymryd â rhaglen Hyfforddiant Hyrwyddwyr Cydraddoldeb sy'n rhychwantu 2013-2014 a blwyddyn ddinesig 2014-2015.

Rwyf wedi derbyn y sesiynau hyfforddi canlynol gyda'r Awdurdod Tân hefyd:

Sgiliau Cadeirio; Hyfforddiant Pwyllgor Safonau yr Awdurdod Tân; Hyfforddiant yr Awdurdod Tân yn Earlswood; Adolygiadau Datblygiad Personol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Llywodraethwr Ysgol Penyrheol ac Ysgol Pengelli.
Cynghorydd Hyrwyddwr dros Bobl Hŷn.
Bûm yn ymgyrchu gyda swyddogion ynghylch diogelwch ger siop Nisa ym Mhenyrheol.
Mynychais gyfarfodydd ynghylch darpar safleoedd sipsiwn a theithwyr yn y ward.
Bûm yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd 50 oed a hŷn a chyfarfûm â Swyddog Pobl Hŷn Cymru.
Cynhaliais daith gerdded o'r ward gyda Chris Sivers, Cyfarwyddwr Lleoedd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Mai 2014 Cyng. Jan Curtice |